# Pwyswch ar Lywodraeth Cymru i wahardd saethu gwyddau talcenwyn

## Ynglŷn â gwyddau talcenwyn

Mae gwyddau talcenwyn ymysg y poblogaethau prinnaf o wyddau sy'n gaeafu yn y Deyrnas Unedig, ac maen nhw'n mynd ar deithiau anhygoel am adar mor fawr. Bob hydref, bydd gwyddau talcenwyn yr Ynys Las, sydd mewn perygl ar draws y byd, yn gadael eu magwrfa yn nhwndrâu pell gorllewin yr Ynys Las gan fudo ar draws capanau rhew a chefnforoedd i dreulio'r gaeaf ar Ynysoedd Prydain, ac yma yng Nghymru. Mae'r brîd mwy cyffredin sy'n perthyn iddyn nhw, gwyddau talcenwyn Ewrop, yn mynd ar daith debyg, gan fudo'r holl ffordd o Siberia.

Mae gwyddau talcenwyn yr Ynys Las bron â diflannu'n llwyr yma yng Nghymru, gyda dim ond nifer fechan yn gaeafu yn aber Dyfi, sy'n cael ei warchod yn rhyngwladol. Mae niferoedd gwyddau talcenwyn Ewrop yn gostwng yn gyflym hefyd.

## Sut gallwch chi helpu

A wnewch chi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru os gwelwch yn dda, gan bwyso arnyn nhw i **fabwysiadu opsiwn 1, sef gwaharddiad llwyr** ar saethu gwyddau talcenwyn yng Nghymru, drwy gydol y flwyddyn.

Dyma rai o'r pwyntiau y gallech eu cynnwys yn eich neges:

- Dim ond drwy wahardd saethu gwyddau talcenwyn yn llwyr, drwy gydol y flwyddyn, yng Nghymru y gallwch chi sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod yn llawn, ac nad ydyn nhw'n cael eu saethu mewn camgymeriad.
- Mae gwyddau talcenwyn yr Ynys Las nawr mewn perygl o ddiflannu'n llwyr yng Nghymru, felly mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd gyfreithiol a moesol i wahardd eu saethu.
- Mae nifer gwyddau talcenwyn Ewrop hefyd wedi gostwng yn gyflym yn y DU yn y blynyddoedd diweddar, felly mae angen yr un warchodaeth arnyn nhw.
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar fin dod i rym, sy'n galw am Gymru gydnerth, gydag amgylchedd naturiol bioamrywiol. Mae sicrhau amgylchedd naturiol bioamrywiol yn golygu achub rhywogaethau fel y gwyddau talcenwyn, drwy eu gwarchod yn llwyr, heb ddibynnu ar waharddiad gwirfoddol.

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar **7 Mawrth 2016**. Gallwch anfon eich ymatebion at:

natureconservation@wales.gsi.gov.uk

Neu ysgrifennwch at:

Cangen Bioamrywiaeth a Chadwraeth Natur, Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UR

Os ydych chi wedi cymryd camau i achub yr adar hyn sydd mewn perygl, yna a fyddech cystal â'n helpu ni i fonitro cynnydd yr ymgyrch drwy e-bostio neu bostio copi o'ch llythyr at Matthew Ford, Eiriolwr Polisi, yn campaigns.wales@rspb.org.uk neu RSPB Cymru, Pencadlys Cymru, Castlebridge 3, 5-19 Heol y Bont-faen, Caerdydd, CF11 9AB.

**Diolch am ymuno â ni i wneud gwahaniaeth a siarad dros fyd natur.**